# PWYLLGOR SAFONAU

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod Hybrid, 29 Gorffennaf, 2024 a gynhaliwyd am 10.00 a.m.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Presennol: R. Hendicott (Cadeirydd); Y Cynghorwyr R.M. Birch, J.E. Charles a C.P. Franks; G. Olphert a G. Watkins (Aelodau Annibynnol); a'r Cynghorydd P. Summers (Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned).

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd V.P. Driscoll a'i gynnrychiolwyr, Mr. Joseph Broadway a Mr. Mr. Gwydion Hughes a Ms. Heather Coutanche (yn cynrychioli Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain oddi wrth L. Tinsley (Is-Gadeirydd) ac R. Alexander (Aelodau Annibynnol).

EITEM AGENDA 2. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 3. ADRODDIAD YN YMWNEUD Â CHWYN YN ERBYN Y CYNGHORYDD V.P. DRISCOLL MEWN PERTHYNAS Â CHYNGOR BRO MORGANNWG (SM/PGCD) –

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y Cynghorydd Driscoll wedi methu â chydymffurfio â pharagraff 4 (d) y Cod Ymddygiad Aelodau sy'n nodi bod “Rhaid i chi beidio â gwneud unrhyw beth sy'n peryglu, neu sy’n debygol o beryglu, didueddrwydd y rhai sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran”, i'r graddau bod

- Gweithredoedd y Cynghorydd Driscoll yn ymwneud â defnyddio cyfeiriad e-bost y Cyngor ar dri achlysur ar gyfer buddiannau personol.

(2) BOD y Cynghorydd Driscoll wedi methu â chydymffurfio â pharagraff 6 (1)(a) y Cod Ymddygiad Aelodau sy'n datgan "Rhaid i chi beidio ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ystyried ei fod yn dwyn anfri ar eich Cyngor" i'r graddau bod

- y Cynghorydd Driscoll wedi methu â diweddaru'r Cyngor am feddiannu 50C Heol Holltwn a oedd â'r potensial i effeithio ar y berthynas gydfuddiannol o ymddiriedaeth a fodolai rhwng y Cyngor, ei Aelodau etholedig, a'r cyhoedd.

(3) BOD y Cynghorydd Driscoll wedi methu â chydymffurfio â pharagraff 15 (1)(b) y Cod Ymddygiad Aelodau "Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), rhaid i chi o fewn 28 diwrnod o'ch ethol neu eich penodi i'r swydd (os yw hynny'n ddiweddarach), gofrestru eich buddiannau personol, pan fyddant yn dod o fewn categori a nodir ym mharagraff 10 (2)(a), yng nghofrestr buddiannau aelodau eich awdurdod drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i swyddog monitro eich awdurdod" i'r graddau bod

- y Cynghorydd Driscoll wedi methu â diweddaru'r Cyngor am feddiannu Uned 5 Biglis House a oedd â'r potensial i effeithio ar y berthynas gydfuddiannol o ymddiriedaeth a fodolai rhwng y Cyngor, ei Aelodau etholedig, a'r cyhoedd.

(4) BOD, gan ystyried y penderfyniadau uchod a'r ffactorau gwaethygol yn ymwneud â phenderfyniad blaenorol y Pwyllgor Safonau, a arweiniodd at atal y Cynghorydd Driscoll am fis ar yr achlysur hwnnw, a oedd yn cynnwys methiant i wneud datganiad, y Cynghorydd Driscoll yn cael ei atal rhag bod yn Aelod o Gyngor Bro Morgannwg am gyfnod o dri mis.

(5) Y hysbysir y Cynghorydd Driscoll o'i hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor o fewn cyfnod o 21 diwrnod o dderbyn hysbysiad, drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i:

Y Cofrestrydd
Panel Dyfarnu Cymru
Adeiladau’r Llywodraeth
Spa Road East
Llandrindod
Powys
LE1 5HA

a bod yn rhaid i'r hysbysiad apelio nodi:

- y rhesymau dros apelio, ac
- a yw'r person sy'n rhoi’r hysbysiad apelio’n cydsynio i'r apêl gael ei chynnal drwy sylwadau ysgrifenedig.

(6) Yn amodol ar apêl (os o gwbl), cyhoeddir canfyddiadau'r Pwyllgor Safonau fel y manylir arnynt ym Mhenderfyniadau (1) – (4) uchod yn unol â gofynion Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001, fel y'u diwygiwyd.

<u>Rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1-4) O ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd i’r cyfarfod o benderfyniadau'r Pwyllgor, y ffactorau lliniaru a gyflwynwyd gan Mr. Joseph Broadway ar ran y

Cynghorydd Driscoll a'r ffactorau lliniaru a gwaethygol a gyflwynwyd gan gynrychiolydd yr Ombwdsmon, Mr. Gwydion Hughes, yn y cyfarfod, ac er mwyn hyrwyddo a chynnal Safonau Moesegol Mewn Bywyd Cyhoeddus.

(5-6) Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 fel y'u diwygiwyd.